

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL MEWNFUDO: GOFYNION IAITH AR GYFER GWEITHWYR Y SECTOR CYHOEDDUS

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Senedd y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at ddibenion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Mewnfudo (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Medi 2015. Gellir gweld y Bil yn:
<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/immigration.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y Bil yw mynd i'r afael â mewnfudo anghyfreithlon drwy ei gwneud yn anos byw a gweithio'n anghyfreithlon yn y Deyrnas Unedig. Nod y Bil yw y bydd mewnfudwyr anghyfreithlon yn gadael o'u gwirfodd os na fydd ganddynt fynediad at waith. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau eraill i gefnogi symud mewnfudwyr anghyfreithlon ymaith yn orfodol os na fyddant yn gadael o'u gwirfodd.
4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth am y gyfraith ynghylch mewnfudo a cheisio lloches; mynediad at wasanaethau, cyfleusterau, trwyddedau a gwaith o ran statws mewnfudo; Cyfarwyddwr Gorfodi'r Farchnad Lafur; gofynion iaith ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus; ffioedd ar gyfer pasbortau a chofrestru sifil; a dibenion cysylltiedig.

Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Mae'r Memorandwm hwn yn ymwneud â Rhan 7 o'r Bil fel y daeth o Dŷ'r Cyffredin ac fel y'i cyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2015. Mae hefyd yn ymwneud â gwelliannau i'r rhan hon a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Bates ar dudalennau 11 a 12 o'r [Gwelliannau i'w cynnig mewn Pwyllgor \[Rhestr Atodol i'r Ail Restr wedi'i Gosod Mewn Trefn\]](#) | [Fersiwn PDF, 206KB](#) a gyhoeddwyd ar 21 Ionawr 2016. Cyflwynwyd y gwelliannau hyn yn dilyn cais Llywodraeth Cymru na ddylai'r darpariaethau yn Rhan 7 fod yn gymwys mewn cysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
6. Nod cymal 47 o'r Bil yw gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sicrhau bod pobl a gyflogir mewn rôl sy'n gwasanaethu cwsmeriaid ("*customer-facing role*") yn siarad Saesneg yn rhugl; ac yng Nghymru, eu bod yn siarad Saesneg neu Gymraeg yn rhugl. Mae rôl sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yn cyfeirio at berson y mae'n ofynnol iddo, fel rhan annatod a rheolaidd o'i waith, siarad ag aelodau'r cyhoedd yn Saesneg, neu, yng

Nghymru, yn Saesneg neu'n Gymraeg. Diffinnir rhugl ("*fluent*") yn y Bil fel a ganlyn: "*a command of spoken English or Welsh which is sufficient to enable the effective performance of the person's role*".

7. Dim ond i awdurdodau cyhoeddus a ddiffinnir yn y Bil y bydd y ddyletswydd yn gymwys, a dylai'r awdurdodau hynny roi sylw i god ymarfer y darperir ar ei gyfer yng nghymal 50 o'r Bil wrth benderfynu sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny weithredu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion am fethu cydymffurfio â'r ddyletswydd, a rhoi sylw i god ymarfer wrth benderfynu a yw'r gweithdrefnau hynny'n ddigonol.
8. Mae cymal 48 yn diffinio'r hyn a olygir gan awdurdod cyhoeddus ac mae'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn (y Gweinidog perthnasol) i wneud rheoliadau i ychwanegu, addasu, neu ddileu corff â swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r gwelliant i gymal 48 o'r Bil, a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Bates fel y nodir ym mharagraff 5 uchod, yn darparu bod person sy'n arfer swyddogaethau o ran Cymru yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion Rhan 7 mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny dim ond os yw'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â mater sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r graddau y mae'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â mater sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
9. Mae cymal 49 yn cynnwys pŵer i'r Gweinidog perthnasol ymestyn y ddyletswydd statudol i gynnwys darparwyr sector preifat a sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a gontractir allan.
10. Mae cymal 50 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog perthnasol gyflwyno codau ymarfer, a'u cadw mewn grym. Bydd y codau ymarfer hyn yn cynnwys y canlynol: y safon ofynnol o Saesneg llafar, neu, yng Nghymru, y safon ofynnol o'r Saesneg neu'r Gymraeg; sut yr ymdrinnir ag unrhyw fethiant i fodloni'r safon honno; gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am fethu cydymffurfio â'r ddyletswydd; a sut y mae awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd ac ymrwymadau cyfreithiol eraill sydd ganddynt.
11. Mae cymal 51 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r Gweinidog perthnasol eu cymryd wrth baratoi cod ymarfer o dan gymal 50. Rhaid i'r Gweinidog perthnasol ymgynghori â'r personau hynny y mae'n eu hystyried yn briodol a gosod drafft o'r cod gerbron y Senedd cyn ei gyflwyno. Mae'n galluogi'r Gweinidog perthnasol i adolygu, diwygio ac ailgyhoeddi'r cod.
12. Mae cymal 52 yn nodi manylion o ran sut y mae gofynion iaith ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yng Nghymru.
13. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y

maent yn ymwneud â'r Gymraeg o dan baragraff 20 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Priodoldeb gwneud darpariaethau trwy'r Bil

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol i'r darpariaethau a amlinellir yn y Memorandwm hwn (Rhan 7 o'r Bil fel y daeth o Dŷ'r Cyffredin, ynghyd â'r gwelliannau i gymal 48 a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Bates ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 8 uchod), i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Gymraeg, gael eu gwneud mewn Bil Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
15. Bydd Rhan 7 o'r Bil, ynghyd â gwelliannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r rhan hon a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Bates, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau sector cyhoeddus yng Nghymru nad ydynt wedi eu datganoli i sicrhau bod pawb sy'n gweithio iddynt mewn rôl sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yn siarad Saesneg neu Gymraeg yn rhugl.
16. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu yn yr un modd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, cydnabyddwn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig, wrth ddeddfu i osod gofynion iaith ar swyddogaethau awdurdodau lleol nad ydynt wedi eu datganoli, yn gallu trin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg o fewn cyd-destun darpariaethau'r Bil.

Goblygiadau ariannol

17. Nid yw Llywodraeth Cymru'n rhagweld unrhyw oblygiadau ariannol i wasanaethau cyhoeddus datganoledig o gydsynio i'r darpariaethau a nodir yn y Memorandwm hwn.

Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Chwefror 2016